# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor gynhaliwyd nos Iau, 18fed o Fehefin, 2020 drwy 'Zoom'.**
**<u>Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.</u>**

<u>Yn bresennol</u> drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Aled Davies (Is-gadeirydd), Aled Evans, Trefor Wyn Jones, Margaret Griffith, William Ifor Hughes, Naomi Jones, Thomas Prys Jones, Ceri Jones, Darren Morley, Sian Angharad Parry, Tegid Jones, Angela Williams, a'r Clerc.

<u>Ymddiheuriadau</u>: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr, Sion Aled Jones a Gareth O.Davies.

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod blynyddol 2ail o Fai, 2019.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ni godwyd dim o'r cofnodion.

4. **<u>Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af Ebrill 2019 i 31ain o Fawrth, 2020 gan y Cadeirydd.</u>**

Cyfeiriwyd at waith arferol y Cyngor sef torri'r llwybrau yn y gymuned; torri cae chwarae Llangybi; cadw safle bedd David Lloyd George a chadw'r safleoedd bws yn y gymuned yn daclus. Fe brynwyd 2 fainc newydd yn ystod y flwyddyn, un o flaen Neuadd Chwilog a'r llall rhwng Llanystumdwy a Bron Eifion. Hefyd fe brynwyd 4 hysbysfwrdd newydd, un yn Rhoslan, Llanystumdwy, Chwilog a Phencaenewydd.
Cyfeiriwyd am y gwaith o geisio gael llwybr cerdded rhwng Chwilog i Afonwen, y ddeiseb o dros 340 o enwau a gasglwyd o amgylch y pentref ystod Haf 2019. Fe drosglwyddwyd y ddeiseb i aelod Cabinet Cyngor Gwynedd fis Hydref 2019, a bu'r Cynghorydd Aled Evans, a'r Cynghorydd Anwen Jones yn trafod y peryglon o beidio cael llwybr ar y cyfryngau, y wasg a'r radio. Diolchodd i bawb am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.

5. **<u>Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill 2019 i 31ain o Fawrth, 2020 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.</u>**
Rhannwyd taflenni yn dangos crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 31ain, 2020 a chysoniad y banc am y flwyddyn, ac fe eglurodd y Clerc am y gwariant ac incwm yn fanwl.

**<u>GWAITH Y FLWYDDYN RHWNG 01.04.2019 – 31.03.2020</u>**

Rhannwyd cyfanswm o £7,950.00 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol yn gymunedol, a £2813.19 o'r cyfrif Budd Cymunedol 'Lightsource', sef cyfrif o'r arian fferm solar. Roedd hyn yn gyfanswm o £10,763.19 rhwng y ddau gyfrif, (sef yn £3813.19 fwy na'r flwyddyn cynt). Roedd hyn y

cynnwys £3000.00 i'r Eisteddfod Genedlaethol, a thalu am gyswllt Wifi mewn 3 pentref yn y gymuned, sef Neuadd Llanystumdwy, Neuadd Goffa Chwilog a Festri Capel Pencaenewydd yn ystod y flwyddyn.
Gwnaed yn siwr fod halen yn y biniau halen, a cyfranwyd £2,000.00 tuag at gynnal toiled cyhoeddus Llanystumdwy.

Dechrau Ebrill 2019 roedd cyfanswm o £19,654.87 yn y 3 cyfrif banc.
Erbyn diwedd Mawrth 2020 roedd y cyfanswm wedi gostwng i fod yn £12.321.59.
Felly fe wariwyd £7333.28 yn fwy yn ystod y flwyddyn.
Yr hyn a wariwyd yn ychwanegol i'r arfer oedd:-

- 2 fainc newydd, gan Cwmni David Ogilvie un yn Chwilog a'r llall tu allan i Lanystumdwy. Y gost amdanynt a chael ei gosod oedd £2474.00.
- 4 hysbysfwrdd newydd gan Mr Alun Owen, Chwilog am £2832.00
- Rhodd o £3000.00 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ag Eifionydd 2021.
- Derbyniwyd ad-daliad TAW yn fwy o £782.76 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £1113.65.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £3951.39 gan gwmni Lightsource a oedd yn £93.69 yn fwy na'r flwyddyn blaenorol.

Fe godwyd y praesept eleni (01.04.2020-21) o £15,000.00 y flwyddyn i £18,000.00 er mwyn galluogi gwneud mwy i'r gymuned.

Gwnaed Polisi Rheoliadau Ariannol yn ystod y flwyddyn, a dechrau trefn o anfon y gyllideb/cyfrifon bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant yn sgîl argymhelliad gan yr archwiliad allannol.
Diolchwyd i'r Cadeirydd a phawb am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso gwaith y Clerc.

Penderfynwyd derbyn y cyfrifon am y flwyddyn ac arwyddwyd y cyfrifon a'r daflen grynodeb gan y Cadeirydd a'r Clerc. Yn awr gellir mynd ymlaen gyda'r archwiliad ariannol mewnol.

6. Nid oedd trethdalwyr y bresennol i ofyn cwestiynau.

7. Ethol swyddogion am y flwyddyn 1af Ebrill 2020 – 31ain o Fawrth 2021.

a) **Cadeirydd; sef yr Is gadeirydd presennol, y Cynghorydd Aled Davies**.
(Nid oedd yn bosibl llofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd Cadeirydd newydd gan y Cynghorydd Aled Davies ar y noson, oherwydd natur y cyfarfod drwy 'Zoom', ond bydd hyn yn cael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf).

b) **Is gadeirydd**; tro Wardiau Rhoslan/Llanystumdwy ydoedd - cynigiwyd enw y **Cynghorydd Tegid Jones** i fod yn Is-gadeirydd newydd am y flwyddyn 2020-2021, a derbyniodd y swydd.

c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Cytunodd y Clerc i barhau â'r swydd.

ch) **Elusen William Ellis, Llanystumdwy**, Cynghorwyr Ward Llanystumdwy. Cadarnhawyd mai Cynghorwyr Ward Llanystumdwy fyddai yn parhau i rannu'r arian yma.

8. Cadarnhau aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor – cadw'r enwau yr un fath ag o'r blaen, mae'r manylion i gyd ar y wefan.

9. Dewis cynrychiolydd i:-
**Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru**- dywedodd y Cynghorydd Trefor Jones ei fod yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn gynrychiolydd o rwan ymlaen. Fe ddiolchwyd iddo am ei waith ar hyd y blynyddoedd. Yna, oherwydd nad oedd neb yn fodlon ymgymryd â bod yn gynrychiolydd ar y noson penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

**Grwp Mynediad Dwyfor** – enwebwyd Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog.

Diolchodd y Cadeirydd newydd, sef y Cynghorydd Aled Davies i'r cyn Gadeirydd sef Cynghorydd Anwen Jones am ei gwaith am y flwyddyn 2019 – 2020, a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**